Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2022-23

Mehefin 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2022-23

Mehefin 2023

senedd.cymru



# Cynnwys

**Rhagair** ..... **7**

**Ein perfformiad** ..... **8**

Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd. ..... 8

**Safonau Gwasanaeth** ..... **10**

Busnes y Senedd ..... 10

Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth ..... 10

Rhannu Arbenigedd ..... 11

**Gwybodaeth Ystadegol** ..... **12**

Recriwtio ..... 12

Busnes y Senedd ..... 13

Trafodion ..... 14

**Themâu** ..... **16**

Sgiliau Iaith ..... 16

Recriwtio ..... 18

Ethos Dwyieithog y Sefydliad ..... 18

**Monitro a Chydymffurfio** ..... **20**



# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd ar ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol. Dyma'r adroddiad cyntaf ers cymeradwyo Cynllun y Chweched Senedd fis Medi 2022.  Yn ogystal ag ymateb i argymhellion archwiliad mewnol ar waith y Tîm Ieithoedd Swyddogol, rydym hefyd wedi gweithio ar roi'r Cynllun newydd ar waith a sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchel a gyrhaeddwyd eisoes.

Eleni, roedd hi'n ddeng mlynedd ers cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf, fis Gorffennaf 2012. Yn anochel mae'r sefydliad wedi newid ers y dyddiau cynnar hynny, ond mae ymrwymiad y Comisiwn i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf yn parhau. Yn ogystal â'r gwaith o ddydd i ddydd yn cefnogi ac yn cynghori Aelodau, eu Staff Cymorth a Staff y Comisiwn o ran gweithio'n ddwyieithog, mae'r tîm wedi edrych ar arfer da yn fwy eang. Rydym wedi chwilio am gyfleoedd i ddysgu gan eraill er mwyn sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran datblygiadau ym maes technoleg iaith, a gweithio'n ddwyieithog. Mae'r tîm hefyd wedi mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gefnogi a chynghori eraill, boed hynny yng Nghymru neu ymhellach. Rydym yn falch iawn o'n llwyddiannau ac o'n henw da fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, ac mae'n bwysig ein bod yn rhannu hynny pan fo'n bosibl, tra ein bod ar yr un pryd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella.

O ran ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd i'w galluogi i gyfrannu yn eu dewis iaith, ac i fod yn hyderus wrth wneud hynny mewn trafodion neu yn eu hetholaeth. Byddwn hefyd yn ystyried ein prosesau cynllunio ieithyddol gan edrych ar gynlluniau iaith y gwasanaethau unigol a chasglu gwybodaeth am sgiliau iaith Staff y Comisiwn. Bydd hyn oll yn rhoi sicrwydd ynghylch lefelau sgiliau a chapasiti i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf.



Rhun ap Iorwerth AS
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol

# Ein perfformiad

## Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Mae hi bron yn flwyddyn ers i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd gael ei gymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn, fis Medi 2022. Ers hynny, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio ar gyflwyno a rhoi'r Cynllun ar waith. Ein nod yw cynnal y safonau a'r disgwyliadau uchel a sefydlwyd yn ystod y Bumed Senedd, gan sicrhau nad ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau. Mae Aelodau'r Chweched Senedd yn ein dal i gyfrif ar ran pobl Cymru.

Yn ystod y flwyddyn 2021 – 22 hefyd, cynhaliwyd archwiliad mewnol yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol o ran monitro a rhoi'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar waith. Cafodd cynnwys ac argymhellion yr archwiliad, a'r camau gweithredu a luniwyd gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol eu hystyried gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ym mis Tachwedd 2022.

Yn dilyn argymhellion yr archwiliad, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i drafod dulliau monitro ac adrodd o ran cwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. Roedd cynrychiolwyr o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol, Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Tîm Llywodraethiant yn aelodau o'r grŵp. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, argymhellodd y grŵp y dylid cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i Gydgysylltwyr. Er mwyn gwneud hyn, lluniwyd disgrifiad rôl ar gyfer unigolion sy'n cael eu henwebu i fod yn Gydgysylltwyr, a chanllawiau i'w cynorthwyo i ymdrin â chwynion, neu achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r prosesau sydd yn eu lle eisoes ar gyfer achosion o'r fath er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi pob achos ac yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd. Bydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd yn cysylltu â chydweithwyr mewn cyrff eraill i holi am arferion da o ran ymdrin â chwynion ac adrodd ar berfformiad. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Tîm hefyd yn ystyried dulliau o gofnodi manylion cwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio, er mwyn sicrhau bod y broses mor syml â phosibl.

Gwnaed argymhellion hefyd ynghylch ymwybyddiaeth o'r Cynllun. Roedd yr argymhellion yn arbennig o amserol, gan ein bod yn paratoi i fabwysiadu Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Chweched Senedd. Bellach mae amlygrwydd y Cynllun ar Fewnrwyd Staff Comisiwn y Senedd wedi cynyddu trwy greu pennawd newydd yn yr adran ar Ddiwylliant, Gwerthoedd a Rhwydweithiau. Ar hyn o bryd, gall Staff y Comisiwn weld gwybodaeth am y Cynllun a materion yn ymwneud â chydymffurfio, ac mae gwybodaeth hefyd am ddysgu Cymraeg a gloywi iaith. Dros y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Tîm yn datblygu rhagor o elfennau, gan gynnwys cyngor ar weithio'n ddwyieithog. Caiff unrhyw wybodaeth a ddatblygir ei chyhoeddi yn adran Gweithio'n Ddwyieithog Mewnrwyd yr Aelodau hefyd.

# Safonau Gwasanaeth

Cafodd diwyg y Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd ei newid er mwyn ei gwneud hi'n haws cydymffurfio â gofynion y Cynllun heb yr angen i ddehongli geiriad y safonau gwasanaeth. Roedd y broses o adolygu Cynllun y Bumed Senedd i'w fabwysiadu ar gyfer y Chweched Senedd yn gyfle hefyd i ystyried effeithiolrwydd y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Penderfynwyd cyfuno'r Cynllun a'r Strategaeth, er mwyn creu dogfen gynhwysfawr ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cael gwybodaeth am ein hieithoedd swyddogol.

## Busnes y Senedd

Wrth i gyfyngiadau pandemig y Coronafeirws lacio yn gyfan gwbl, mae Senedd Cymru wedi symud i ffordd newydd o weithio gan ymgorffori gweithio hybrid ym mhob elfen o'i gwaith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfarfodydd a digwyddiadau'r Senedd yn cael eu cynnal mewn modd sy'n caniatáu i'r sawl sy'n cymryd rhan, boed hynny ar yr ystâd neu ar-lein, ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol yn ddiofyn. I'r perwyl hwn, mae staff Comisiwn y Senedd wedi bod yn cydweithio â grŵp rhanddeiliaid *Microsoft* i brofi technoleg newydd fydd yn hwyluso gweithio dwyieithog mewn unrhyw ffordd. Mewn lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, fis Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod y cyfleuster cyfieithu ar y pryd bellach yn weithredol o fewn *Microsoft Teams*. Roedd Comisiwn y Senedd yn rhan o'r tîm profi fu'n cydweithio â Llywodraeth Cymru a *Microsoft*. Mae'r cyfleuster cyfieithu ar y pryd bellach yn un o'r opsiynau sydd ar gael i ni wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol.

## Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth

Mae adborth yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn teilwra ein gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pob Aelod o'r Senedd. Yn ystod Tymor yr Hydref 2022, casglwyd adborth gan y rhan fwyaf o'r Aelodau ynghylch eu dulliau gweithio a'u profiad o wasanaethau'r Comisiwn yn gyffredinol. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn bositif o ran y gallu i weithio yn eu dewis iaith a'r gefnogaeth sydd

ar gael iddynt wneud hynny. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol bob amser yn barod i dderbyn adborth gan Aelodau a'u staff ac i addasu unrhyw wasanaethau er mwyn cwrdd â'u hanghenion.

## Rhannu Arbenigedd

Yn ôl ein harfer rydym unwaith eto eleni wedi manteisio ar y cyfle i gynnig cymorth a chefnogaeth i sefydliadau ar draws Cymru a thu hwnt. Rydym bob amser yn barod i drafod ein profiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd dros y ddegawd ers i'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012 ddod i rym. Un o'n hamcanion yw ceisio gwneud mwy o'r gwaith hwn, gan ddefnyddio'r rhwydweithiau rhyngwladol sydd eisoes wedi ymsefydlu.

Fis Gorffennaf 2022, cynhaliwyd Symposiwm y *British Irish Parliamentary Reporting Association* ar ystâd y Senedd. Thema'r Symposiwm oedd ieithoedd a chafwyd sesiynau ar gofnodi ieithoedd swyddogol a thafodiaith. Roedd cyfle hefyd i'r cynadleddwyr gymryd rhan mewn sesiwn Cymraeg Cwrteisi er mwyn iddynt ddeall ychydig am ein matrics sgiliau iaith a dysgu ambell ymadrodd hefyd. Yn fwy diweddar, croesawodd y Tîm Ieithoedd Swyddogol ymwelwyr o'r *Rannóg ân Aistriúcháin*, sef Gwasanaeth Cyfieithu'r *Oireachtas,* sy'n gyfrifol am wasanaethau dwyieithog ar draws y sefydliad. Roedd yr ymweliad yn gyfle iddynt ddeall mwy am waith y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, yn ogystal â'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog ar draws y sefydliad. Rydym yn gobeithio parhau â'r berthynas wrth i'r *Oireachtas* ddatblygu eu gwasanaethau dwyieithog ymhellach. Cafwyd cyfle hefyd i fod yn rhan o sesiwn i ymwelwyr o Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin a drefnwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil. Trafodwyd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a chyflwynwyd sesiwn Cymraeg Cwrteisi iddynt hwythau.

# Gwybodaeth Ystadegol

Yn unol â Safon Gwasanaeth 11.3 y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd gynnwys gwybodaeth ystadegol yn ei adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac yn rhoi'r Cynllun ar waith yn gyson ac yn unol â'r holl safonau gwasanaeth a disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Darparwyd y wybodaeth ystadegol o'r flwyddyn flaenorol er gwybodaeth hefyd.

## Recriwtio

Caiff lefel y sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ei nodi yng nghynlluniau iaith y gwasanaethau unigol trwy drafodaeth rhwng y Cyd-gysylltydd Ieithoedd Swyddogol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae cadarnhau'r gofynion sgiliau iaith ar gyfer pob swydd wag neu swydd newydd yn rhan o'r broses ar gyfer cael caniatâd i hysbysebu gan y Bwrdd Gweithredol.

**Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch.**

**Allanol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 47 | 32 | 0 | 15 |
| **2022-23** | 51 | 34 | 0 | 17 |

**Mewnol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 20 | 9 | 0 | 11 |
| **2022-23** | 19 | 13 | 0 | 6 |

**Cyfanswm**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 67 | 41 | 0 | 26 |
| **2022-23** | 70 | 47 | 0 | 23 |

**Canrannau**

| | Swyddi lefel cwrteisi | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|
| **2021-22** | 61% | 39% |
| **2022-23** | 67% | 33% |

## Busnes y Senedd

**Canran y dogfennau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.**

| | Dwyieithog | Cymraeg yn unig | Saesneg yn unig |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 1651 | 0 | 17 |

Mae sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau yn eu dewis iaith yn hanfodol. Caiff papurau pwyllgor a baratoir gan Gomisiwn y Senedd eu paratoi yn ddwyieithog, ac mae timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i dystiolaeth a phapurau gan drydydd parti fod yn ddwyieithog hefyd. Mae'r trefniadau unigryw ar gyfer briffio Aelodau pob pwyllgor, gan gynnwys pryd ac ar ba ffurf y caiff y papurau briffio eu darparu, wedi parhau.

Mae'r papurau a baratowyd yn Saesneg yn unig yn cynnwys ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg yn unig yn unol â safon 2.2 y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

**Dogfennau a osodwyd**

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| **2021-22** | 930 | 69 | 7% |
| **2022-23** | 885 | 47 | 5% |

Mae dogfennau a baratowyd gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y Llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu Glerc gael ei gosod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog eleni yn syrthio i bedwar categori:

- Adroddiadau gan gyrff allanol y mae gofyn i Lywodraeth Cymru eu gosod gerbron y Senedd;
- Memoranda Esboniadol;
- Is-ddeddfwriaeth;
- Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol

## Trafodion

**Canran y cyfraniadau yn Gymraeg yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn, ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau.**

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2021-22 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2022-23 |
|---|---|---|
| **Trafodion y Cyfarfod Llawn** | 30% | 30% |
| **Trafodion Pwyllgorau** | 12% | 8% |

Mae canran y cyfraniadau Cymraeg mewn Cyfarfodydd Llawn eleni wedi parhau ar yr un lefel, ac fe fyddwn, dros y flwyddyn nesaf yn parhau i ddarparu gwasanaethau i Aelodau er mwyn o leiaf cynnal y lefel. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y cyfraniadau Cymraeg mewn Pwyllgorau. Gall Aelodau dderbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith swyddogol wrth baratoi ar gyfer trafodion pwyllgor, gan gynnwys dogfennau briffio. Mae nifer o faterion allanol yn effeithio ar ganran y cyfraniadau gan gynnwys dewis iaith tystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, a natur llai strwythuredig y trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Serch hynny, mae'r gostyngiad yn destun siom a phryder, ac mae angen cymryd camau i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan mewn pwyllgorau, boed yn Aelodau neu eraill yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio'u dewis iaith mewn trafodion. Byddwn yn edrych yn benodol ar sut i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd pwyllgorau gan gynnwys ymwybyddiaeth ac anogaeth o du'r Cadeirydd a thîm y pwyllgor. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sy'n bodoli eisoes ac yn sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg sy'n ymddangos ac yn esblygu ar hyn o bryd, gan ymrwymo i wneud defnydd arloesol a chyfrifol o'r technolegau hynny.

# Themâu

## Sgiliau Iaith

Mae sicrhau bod staff Comisiwn yn Senedd yn meddu ar y sgiliau perthnasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf yn holl bwysig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi parhau i gynnig ystod eang o gyrsiau a hyfforddiant i gynorthwyo staff y Comisiwn i ddatblygu eu sgiliau, a hynny'n amrywio o sesiynau un i un, dosbarthiadau grŵp neu sesiynau unigol ar bynciau penodol, a darpariaeth i gynorthwyo'r sawl sy'n paratoi i sefyll arholiadau. Yn ystod y flwyddyn hefyd, mae'r tîm wedi darparu gwersi Cymraeg a gloywi iaith hyblyg a phwrpasol i Aelodau a'u Staff Cymorth. Mae'r tîm wedi addasu i'r ffordd newydd o weithio o fewn y Senedd, gan ddarparu cydbwysedd o wersi a sesiynau wyneb yn wyneb, neu ar ffurf hybrid, yn unol â dymuniad y dysgwyr er mwyn cyd-fynd â'u patrymau gwaith.

Yn unol â'r bwriad a nodwyd y llynedd yn yr adroddiad blynyddol, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi mynd ati i ddenu dysgwyr newydd a chyn-ddysgwyr oedd wedi methu â pharhau â'u dysgu oherwydd y pandemig. Bellach, mae nifer cynyddol o Aelodau a Staff yn derbyn hyfforddiant gyda'r tîm, ac mae'r niferoedd bellach wedi cyrraedd y lefelau oedd yn gweithio gyda'r tîm yn rheolaidd cyn y pandemig. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r hyblygrwydd o fewn y ddarpariaeth, nid yn unig o ran amseru a dulliau dysgu, ond hefyd o ran y gallu i ddysgu ar-lein neu yn y cnawd, neu trwy gyfuniad. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu system newydd o gynnig gwersi un i un dwys i ddysgwyr newydd er mwyn caniatáu iddynt ymuno â dosbarthiadau sydd eisoes yn bodoli pan fo'n bosibl yn hytrach na chreu rhestr aros a sefydlu dosbarthiadau newydd. Mae'r system yn gwneud y defnydd gorau o gapasiti y tîm tiwtora ac yn golygu nad yw darpar ddysgwyr yn gorfod aros yn hir cyn dechrau gwersi.

## DYSGWYR CYMRAEG

**15**
Aelodau

**34**
Staff Cymorth

**95**
Staff y Comisiwn

**82%**
Cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023

**10**
Nifer y dysgwyr Cymraeg sydd wedi sefyll arholiad CBAC allanol eleni

## Recriwtio

Dros gyfnod y Bumed Senedd, mae'r dull matrics sgiliau iaith o ddiffinio sgiliau iaith Gymraeg wedi ymsefydlu. Mae'n briodol felly ar ôl pum mlynedd o weithredu'r system i'w hadolygu ac i addasu a datblygu'r system er mwyn sicrhau ei bod yn parhau yn addas i bwrpas. Cafwyd awgrymiadau i'r perwyl hwn yn yr archwiliad mewnol hefyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cytunwyd y byddai'n fwy addas cynnal asesiadau Cymraeg Cwrteisi fel rhan o gyfnod prawf staff sy'n cael eu penodi i swyddi ar y lefel honno. Mae'r tîm bellach wedi addasu a diweddaru'r modiwl Cymraeg Cwrteisi ac yn y broses o ddiweddaru'r asesiad, unwaith eto i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ac yn briodol i'w gynnal ar-lein neu yn y cnawd. Bydd y tîm yn profi yn eang cyn cyflwyno newidiadau. Bydd y tîm hefyd yn parhau i ystyried geiriad y matrics sgiliau iaith er mwyn sicrhau ei fod yn addas ac yn hawdd i'w ddefnyddio.

Un o argymhellion yr archwiliad mewnol am  waith y Tîm Ieithoedd Swyddogol oedd y dylid cysylltu eto â rheolwyr recriwtio flwyddyn ar ôl i ddechreuwyr newydd ymuno i ganfod a yw lefel y sgiliau Cymraeg sydd ei hangen ar gyfer penodiad yn parhau i fod yn briodol i'r rôl sy'n cael ei chyflawni. Bydd hyn yn gyfle i ddeall a yw'r penodiadau yn galluogi timau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, ac a yw'r disgrifiadau yn y matrics yn eglur ac yn addas. Bydd hefyd yn gyfle i wirio a oes unrhyw anghenion hyfforddi wedi codi o ran sgiliau iaith yr unigolyn. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn gweithio ar ddulliau addas o gasglu'r wybodaeth a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

## Ethos Dwyieithog y Sefydliad

Mae dwyieithrwydd yn norm o fewn y Senedd, ac mae cynnal ein henw da o ran hynny yn bwysig iawn. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf ac yn bodloni anghenion a disgwyliadau Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth a phobl Cymru. Mae'n bwysig felly bod staff Comisiwn y Senedd yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ac o ddiwylliant dwyieithog ein sefydliad. Gwnaed argymhelliad hefyd yn yr archwiliad mewnol ynghylch hygyrchedd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog ar Fewnrwyd y Senedd. Penderfynwyd felly y dylid creu ardal arbennig ar y Fewnrwyd lle gellir cael mynediad yn syth i'r Cynllun ei hun, a gwybodaeth am ddysgu a gwella sgiliau Cymraeg. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y tîm yn ychwanegu rhagor o wybodaeth at yr adran.

O ran ymwybyddiaeth, adolygwyd cynnwys y fideo ymwybyddiaeth ar gyfer staff Comisiwn y Senedd er mwyn diweddaru gwybodaeth am y Cynllun ei hun ac unrhyw fanylion eraill megis canlyniadau Cyfrifiad 2021. Bydd y fideo yn rhan o hyfforddiant cynefino unrhyw aelod newydd o staff y Comisiwn, ac yn adnodd pwysig i gynnal ymwybyddiaeth ymysg staff sydd wedi gweithio yn y Senedd ers peth amser. Cynhaliwyd digwyddiadau rhithwir ac yn y cnawd dros y flwyddyn ddiwethaf i nodi achlysuron penodol. Roedd y digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle arbennig o dda i gwrdd ag Aelodau, Staff Cymorth a Staff y Comisiwn er

mwyn ateb cwestiynau am y Cynllun newydd, i gynnig cyngor ar weithio'n ddwyieithog, neu i'w hannog i gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg neu gloywi iaith. Cafwyd adborth ffafriol ar y digwyddiad gan gynnwys y ffaith ei fod yn gyfle da i ddod i nabod y tîm yn well.

Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar gael bob amser i gynnig cyngor i Aelodau a'u staff cymorth ar weithio'n ddwyieithog, ac mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi nifer o ffyrdd o gynnig cefnogaeth. Mae isadran ar Fewnrwyd yr Aelodau yn ymwneud â Gweithio'n Ddwyieithog. O dan yr isadran, gellir cael mynediad at y Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd, a'r cynlluniau blaenorol a manylion ynghylch y gofynion ar Aelodau o'r Senedd. Mae'r isadran hefyd yn cynnwys cyngor ar ffurf 'Cwestiynau Cyffredin', adran ar ddefnyddio'r Gymraeg ar y Cyfrifiadur a manylion gwasanaethau'r Tiwtoriaid iaith. Fel rhan o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol hefyd, ail-lansiwyd y cynllun Cyfeillion Cyswllt. Mae'r Cyfeillion yn gweithredu fel pwynt cyswllt i gynnig cyngor a chymorth ar faterion yn ymwneud â gweithio'n ddwyieithog. Dros y flwyddyn nesaf, bydd y tîm yn sicrhau bod swyddfa pob Aelod yn derbyn manylion cyswllt a gwybodaeth am y cynllun Cyfeillion Cyswllt eto. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau tebyg i'r digwyddiad ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yn chwilio am gyfleoedd eraill i ymgysylltu ag Aelodau a'u Staff Cymorth.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i weithio ar y themâu uchod er mwyn cyflawni'r holl amcanion a nodwyd, a byddwn hefyd yn cychwyn ar y gwaith a nodir yn y themâu ar Gaffael, Defnyddio sgiliau Cymraeg, a Dysgu a Gwella.

# Monitro a Chydymffurfio

Roedd cyflwyno Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd yn gyfle i adolygu dulliau monitro ar draws y sefydliad. Bellach mae'n ofynnol i Benaethiaid Gwasanaeth ddarparu sicrwydd ynghylch cydymffurfio â gofynion y Cynllun fel rhan o'u Datganiad Sicrwydd blynyddol. Caiff Penaethiaid Gwasanaeth eu cefnogi gan y Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol.

Fel rhan o'r broses o adolygu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Bumed Senedd a pharatoi'r Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd, derbyniwyd adborth gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chydgysylltwyr am y broses o fonitro a chofnodi cwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio. Penderfynwyd y dylid adolygu disgrifiad rôl y Cydgysylltwyr a drafftio canllawiau clir ar ymdrin â chwynion, adnabod achosion o fethu â chydymffurfio a chofnodi'r gwersi a ddysgwyd. Bydd y dogfennau yn cael eu rhannu a'u cytuno gyda'r Cydgysylltwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth cyn eu mabwysiadu yn derfynol. Yn ogystal, bydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol yn edrych ar arferion gorau mewn sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod mor effeithiol â phosibl wrth fonitro cydymffurfiaeth.

Roedd posibilrwydd y gallai cyflwyno Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd, a'r newidiadau a'r gwelliannau a ddaeth yn sgil hynny arwain at ambell gamgymeriad neu gamddealltwriaeth ynghylch gofynion y Cynllun. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol am ein darpariaeth. Mae Fforwm Cyd-gysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi cwrdd i drafod materion yn ymwneud â'r Cynllun, ac mae prosesau mewnol eraill ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hefyd yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r prosesau hyn wedi dangos ein bod ar adegau wedi methu â chyrraedd y safonau uchel sydd wedi eu gosod yn y Cynllun, neu wedi bod mewn perygl o fethu â chwrdd â disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r achosion hynny yn ymwneud â dau faes:

## Gwallau ar y Wefan neu ar-lein

Ar adegau mae camgymeriadau ieithyddol yn ymddangos ar ein gwefan, a hynny yn ein dwy iaith swyddogol. Rydym bob amser yn ddiolchgar o gael gwybod am y camgymeriadau er mwyn gallu eu cywiro yn syth. Pan fydd camgymeriad yn ymddangos byddwn yn edrych eto ar y prosesau gwirio a phrawfddarllen ar gyfer testun sy'n ymddangos yn gyhoeddus. Caiff y prosesau hynny eu hatgyfnerthu yn ôl yr angen. Byddwn hefyd yn atgoffa cydweithwyr am wasanaeth gwirio testun y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi sy'n gallu rhoi sicrwydd i staff sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog. Mae modd i unrhyw un sy'n teimlo'n llai hyderus o ran eu sgiliau iaith dderbyn cefnogaeth gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd.

## Diffyg deunydd hyfforddi dwyieithog ar gyfer hyfforddiant

Derbyniwyd adborth yn nodi nad oedd deunydd ar gael yn Gymraeg mewn sesiwn hyfforddiant a ddarparwyd yn fewnol. Trafodwyd y mater gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu a chynigiwyd sesiwn ymwybyddiaeth i'r tîm er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r disgwyliadau o ran ein darpariaeth yn fewnol ac o'r gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo unigolion i ddatblygu deunydd dwyieithog.